# CAIS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM A GRANT HANFODION YSGOL 2026/2027

**I'w gwblhau gan riant/gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn/plant y mae Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu hawlio ar eu rhan.**

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

## A - Manylion Rhiant / Gofalwr - RHAID cwblhau POB Maes

Cyfenw'r Rhiant / Gofalwr.................................................... Enw Cyntaf............................... Teitl.........................

Cyfeiriad……………………………………………………………………………………Cod Post……………………..

Rhif ffôn………………………………………Cyfeiriad e-bost …………………………………………………................

Dyddiad Geni'r Rhiant / Gofalwr ……………………………………………………………..............................

Rhif Yswiriant Gwladol y Rhiant / Gofalwr…………………………………………neu Rif NASS……………………

## B - Rhowch fanylion pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn llawn amser

| | Plentyn 1 | Plentyn 2 | Plentyn 3 | Plentyn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | | | |
| Dyddiad Geni: | | | | |
| Perthynas â'r plentyn: | | | | |
| Ydy'r plentyn yn byw gyda chi: | | | | |
| Enw'r Ysgol: (Ym mis Medi 2026) | | | | |
| Blwyddyn Ysgol: (Ym mis Medi 2026) | | | | |
| **Ydych chi'n byw yn y DU o dan un o gynlluniau Wcráin?** | | | | |
| Os felly, rhowch eich cod rhannu EVisa fel y gallwn wirio eich statws mewnfudo | | | | |
| **Ydych chi neu eich partner yn Geisiwr Lloches?** | | | | |
| Os felly, rhowch eich rhif NASS | | | | |
| ***Ydych chi Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn seiliedig ar eich statws Mewnfudo?** | | | | |
| Os felly, rhowch eich cod rhannu EVisa fel y gallwn wirio eich statws mewnfudo | | | | |
| **A oes gennych chi Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yr UE ond yn methu hawlio unrhyw fudd-daliadau? (fel Credyd Cynhwysol)** | | | | |
| Os felly, rhowch dystiolaeth o hyn | | | | |
| **A yw'r plentyn hwn yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol?** Os ydyw, nodwch enw'r Rhiant Corfforaethol (h.y. yr Awdurdod Lleol) | | | | |

**Mae plentyn sy'n derbyn gofal yn cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ar yr adeg y caiff y cais ei gyflwyno. Os ceir lwfans ar gyfer y plentyn, yna ni ellir hawlio prydau ysgol am ddim.

## DATGANIAD

Rwyf yn ardystio bod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol yn syth am unrhyw newidiadau i'm hamgylchiadau. Rwyf hefyd yn rhoi caniatâd i gynnal unrhyw ymchwiliadau yn ymwneud â'r wybodaeth a roddwyd. Rwyf yn cytuno i ad-dalu'r Awdurdod Lleol, pan ofynnir i fi, am unrhyw daliad sy'n ddyledus am brydau ysgol neu Grant Hanfodion Ysgol a dderbyniwyd y tu hwnt i'r hyn sydd gennyf hawl iddo, waeth sut wnaeth hynny ddigwydd.

Os oes angen cael unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi fy Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yr UE, rwy'n cydsynio i Gyngor Dinas Casnewydd gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith ar fy rhan.

**Llofnod**:........................................................................... **Dyddiad**:.........................................

**MAE ANGEN I DALIAD GAEL EI WNEUD DRWY BACS YN UNIONGYRCHOL I GYFRIF BANC. RHOWCH FANYLION BANC ISOD ER MWYN I'R TALIAD HWN GAEL EI WNEUD.**

Sylwch na allwn dderbyn cyfrifon Swyddfa'r Post

**RHOWCH EICH MANYLION BANC ISOD:**

Ai dyma'ch cyfrif IE / NA

Os na, nodwch eich perthynas â deiliad y cyfrif

**Enw'r Banc/Cymdeithas Adeiladu** **Rhif Cyfrif y Banc/Cymdeithas Adeiladu**

**Enw(au) Deiliad/Deiliaid y Cyfrif** **Cod Didoli'r Gangen**

Rwyf yn awdurdodi Cyngor Dinas Casnewydd i wneud yr holl daliadau i mi trwy'r system BACS

| **Llofnod Deiliad y Cyfrif** | **Dyddiad** |
|---|---|
| | |

**Dychwelwch y ffurflen hon:**

Drwy'r post i Gyngor Dinas Casnewydd, Blwch SP 60, Casnewydd, NP20 4XN neu
E-bost: prydau.ysgol.am.ddim@casnewydd.gov.uk

Neu, gallwch wneud cais ar-lein yn www.casnewydd.gov.uk/prydauysgolamddim

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

# 2026/2027 Prydau Ysgol am Ddim a Grant Hanfodion Ysgol i Ysgolion Casnewydd - Gwybodaeth Bwysig i Rieni / Gofalwyr

## Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

Mae gan bob disgybl ysgol gynradd hawl i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim.

Nid oes raid i deuluoedd plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd wneud cais ar gyfer y cynnig prydau ysgol gan y byddant yn gallu hawlio hyn yn awtomatig yn eu hysgol.

**Fodd bynnag, sylwch y gallai teuluoedd ar incwm isel fod yn gymwys i hawlio'r taliad Grant Hanfodion Ysgol a chyllid ychwanegol ar gyfer eu hysgol, gweler isod.**

## Prydau Ysgol Am Ddim i Deuluoedd Incwm Isel

Os ydych ar incwm isel ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd fel isod, fe'ch cynghorir i wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim gan y gallai hyn roi hawl i chi gael taliad Grant Hanfodion Ysgol ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer eich ysgol.

RHAID i chi gwblhau pob adran ar y ffurflen gais a llofnodi'r datganiad. Bydd ffurflenni anghyflawn yn arwain at oedi wrth roi Prydau Ysgol am Ddim neu daliad y Grant Hanfodion Ysgol tra'n bod yn cysylltu â chi i gael y wybodaeth sydd yn eisiau.

Gallwch wneud cais ar-lein ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd. Mae ffurflenni papur hefyd ar gael ar gais.

**CYMHWYSEDD** – Bydd disgyblion yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim a Grant Hanfodion Ysgol os yw rhieni/gofalwyr yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Elfen Warantedig y Credyd Pensiwn Gwladol
- Cymorth dan ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Cynhwysol, ar yr amod bod gan yr aelwyd incwm a enillir net blynyddol o ddim mwy na £7400.

Pan fyddwch yn gwneud eich cais am Brydau Ysgol am Ddim, bydd eich Awdurdod Lleol yn gwirio'ch cymhwysedd gan ddefnyddio'r system gwirio cymhwysedd. Mae'r broses hon yn gweithio drwy edrych ar enillion hawlydd am hyd at dri o'r cyfnodau asesu diweddaraf, gan ddechrau gyda'r rhai mwyaf diweddar a gweithio'n ôl. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi.

## Prydau Ysgol am Ddim – Darpariaeth Newydd o 1.09.26

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim yn cael ei hehangu i bob disgybl ysgol uwchradd os yw ei riant neu warchodwr yn derbyn Credyd Cynhwysol, ni waeth beth fo'u henillion.

Bydd hyn yn dechrau gyda disgyblion sy'n mynd i Flwyddyn 7 ac 8 o fis Medi 2026.

Bydd teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a bod eu henillion yn is na'r trothwy enillion net blynyddol, sef £7400, yn gymwys i hawlio Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol.

Bydd teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a bod eu henillion yn uwch na'r trothwy enillion net blynyddol, sef £7400, yn gymwys i hawlio Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 7 ac 8 yn unig.

## Hawliadau Adnewyddu

Os oes gan eich plant hawl ar hyn o bryd i gael Prydau Ysgol am Ddim ac yn mynychu un o ysgolion Casnewydd, ni fydd angen i chi gyflwyno cais arall. Byddwn yn gallu gwirio eich cymhwysedd parhaus ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol heb fod angen i chi lenwi ffurflen newydd (oni bai ein bod yn cysylltu â chi am eitem ar wahân). Byddwch yn derbyn hysbysiad o'ch dyfarniad cyn dechrau'r flwyddyn newydd.

## Amddiffyn wrth Bontio

Oherwydd newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru, daeth Amddiffyn wrth Bontio i ben ar 31.12.2023.

Ni fydd unrhyw ddyfarniadau Prydau Ysgol am Ddim newydd a wneir o 01.01.24 yn derbyn Amddiffyn wrth Bontio. Os bydd eich amgylchiadau'n newid, bydd hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn dod i ben os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach.

Bydd cymhwysedd disgyblion sydd eisoes yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim cyn 01.01.2024 yn cael eu diogelu nes i'r plentyn ddod i ddiwedd eu cyfnod addysg presennol h.y. ysgol gynradd/uwchradd.

Ar gyfer unrhyw ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2026, bydd Amddiffyn wrth Bontio nawr yn dod i ben. Byddwn yn gwneud gwiriad cymhwysedd ac os na fodlonir y meini prawf cymhwysedd mwyach, bydd hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, Blwyddyn 6.

## Grant Hanfodion Ysgol 2026/2027

**Bydd y grant ar gyfer y flwyddyn academaidd o fis Medi 2026 yn agor ar 1 Gorffennaf 2026.**

Gall disgyblion sydd â hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim ar sail y meini prawf uchod, hefyd fod â hawl i gael Grant Hanfodion Ysgol os ydynt yn mynd i ddosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd, blynyddoedd 1,2,3,4,5,6,7,8,9,10 neu 11 neu os ydynt mewn ysgol arbennig, uned adnoddau anghenion arbennig neu uned cyfeirio disgyblion a'u bod yn 4,5,6,7,8,9,10,11,12,13,14 neu'n 15 oed.

Mae arian hefyd ar gael i bob plentyn oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal.

Gellir hefyd ystyried disgyblion sydd heb hawl i arian cyhoeddus, sy'n mynd i'r Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1,2,3,4,5,6,7,8,9,10 ac 11 ym mlwyddyn ysgol 2026/2027 ar gyfer yr arian hwn.

Bwriad y Grant Hanfodion Ysgol yw rhoi cymorth i deuluoedd ar incwm isel i brynu:

- Gwisg ysgol gan gynnwys cotiau ac esgidiau;
- Dillad chwaraeon gan gynnwys esgidiau;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgowtiaid, geidiaid, cadetiaid, crefftau ymladd, chwaraeon, celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer e.e. bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu;
- Offer arbenigol pan fo gweithgareddau cwricwlwm newydd yn dechrau, megis dylunio a thechnoleg;
- Gliniaduron neu gyfrifiaduron llechen; ac
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, fel dysgu yn yr awyr agored, e.e. dillad gwrth-ddŵr.

**Cysylltwch â'ch ysgol i weld a oes offer ar gael cyn prynu unrhyw beth.**

Gwneir taliad o £125 fesul disgybl ym mhob blwyddyn ysgol sy'n gymwys ac eithrio disgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 a fydd yn derbyn taliad o £200.

Rhowch eich manylion banc ar eich cais er mwyn i'r taliad hwn gael ei wneud. Rhaid talu'r taliad i gyfrif banc. Ni allwn wneud taliadau i gyfrif Swyddfa'r Post. Gallai methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at oedi cyn rhoi'r taliad hwn i chi.

**Dim ond un taliad grant y gellir ei hawlio mewn unrhyw flwyddyn academaidd.**

**SYLWER AR Y CANLYNOL:**

**NEWID YN EICH AMGYLCHIADAU - Eich cyfrifoldeb chi** yw rhoi gwybod i'r Tîm Prydau Ysgol Am Ddim am unrhyw newidiadau i amgylchiadau ariannol/teuluol. Gallai hyn gynnwys newid i'r canlynol:

- Statws perthynas
- Costau gofal plant
- Oriau gwaith
- Lefelau incwm
- amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc
- a yw rhiant yn gadael Prydain Fawr am fwy na 4 wythnos.

Gallai methu â rhoi gwybod arwain at godi'r pris llawn arnoch am unrhyw brydau ysgol a gafodd eich plant o'r dyddiad y newidiodd eich amgylchiadau. Efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw daliad Grant Hanfodion Ysgol a gawsoch ond nid oedd gennych hawl iddo oherwydd eich methiant i ddatgelu gwybodaeth bwysig.

Os yw'ch plentyn yn symud i ysgol wahanol yng Nghasnewydd yn ystod y flwyddyn ysgol, cysylltwch â'r Tîm Prydau Ysgol Am Ddim fel y gallwn ddiwygio'r dyfarniad a rhoi gwybod i'r ysgol newydd am ei hawliad.

Ni allwch hawlio am blentyn sydd â lle meithrin rhan-amser.

**WEDI PENDERFYNU PEIDIO Â GWNEUD CAIS?**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant ychwanegol i bob plentyn y mae ganddo hawl i brydau ysgol am ddim ac sy'n eu hawlio (yn seiliedig ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer teuluoedd incwm is). Gall fod yn fonws ychwanegol i ysgol eich plentyn felly byddem yn eich annog i wneud cais.

Mae prydau ysgol yn cynnig dewis iach gyda buddion maethol sylweddol ac mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu y gall cael pryd iach amser cinio helpu i wella perfformiad a gallu eich plentyn i ganolbwynt yn ystod y dydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Prydau Ysgol am Ddim neu'r Grant Hanfodion Ysgol, cysylltwch â:

- Rhif Ffôn (01633) 987753 neu
- drwy e-bost: prydau.ysgol.am.ddim@casnewydd.gov.uk

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**